

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG  
CYNGOR SIR GAR (2018-2033)  
ARCHWILIAD**

---

**RHESTR O FATERION A CHWESTIYNAU**

## **Mater 5: Arferion Iach – Yr Amgylchedd Naturiol, Adeiledig a Hanesyddol**

*Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol sy'n gadarn, yn gyfiawn ac yn gyson â gofynion y polisi cenedlaethol?*

*Yr Amgylchedd Naturiol*

### **1. A yw Polisi SP14 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol? A yw'n gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?**

Cyfeirir at ymateb y Cyngor i gwestiynau cychwynnol yr Arolygydd mewn perthynas â Pholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12) ac yn arbennig y newidiadau mewn perthynas â Phennod 6. Mae'r ymateb yn ystyried alinio SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol â pholisi cynllunio cenedlaethol ac yn nodi nifer o newidiadau i sicrhau cysondeb parhaus. Yn ogystal, cynigwyd hefyd fewnosod y geiriau 'ac adnoddau naturiol na ellir eu hadfer.' ar ôl y gair rhywogaeth ar ddiwedd 3ydd paragraff y polisi.

Mae'r polisi yn gosod y fframwaith strategol ar gyfer cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae hyn wrth ei ddarllen a'i ddefnyddio ar y cyd â pholisïau perthnasol eraill y Cynllun yn gosod fframwaith clir a chyson ar gyfer gwneud penderfyniadau.

### **2. A yw gofynion Polisïau NE2 yn glir ac yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?**

Cyfeirir at ymateb y Cyngor i gwestiynau cychwynnol yr Arolygydd mewn perthynas â Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru ac yn benodol y newidiadau mewn perthynas â Phennod 6. Mae'r ymateb yn ystyried alinio NE2: Bioamrywiaeth â pholisi cynllunio cenedlaethol ac yn nodi nifer o newidiadau i sicrhau cysondeb parhaus. Yn ogystal, ac i ychwanegu eglurder i'r ymateb hwnnw nodir y gwelliannau arfaethedig canlynol:

- Mewn maen prawf i amnewid 'hierarchaeth liniaru' gyda 'dull cam-ddoeth'.
- Diwygio maen prawf ii i gynnwys 'a sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth' ar ôl y gair 'cynigion'.

**3. Beth yw pwrpas Polisi NE4? Ac a yw'n gyson â gofynion y polisi cenedlaethol a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)?**

Ydy, mae Polisi NE4 yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol. Yn unol â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), mae'r polisi hwn wedi'i gynnwys yn y cynllun gyda'r bwriad o osgoi effeithiau ar safle(oedd) Ewropeaidd penodol y gallai gweithredu'r cynllun effeithio fel arall ar ei/eu nodweddion cymhwyso. Fel y cefnogir gan Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Caeau'r Mynydd Mawr (Dogfen Gyflwyno CSD87) y cynigir eu mabwysiadu ar yr un pryd â'r Cynllun, bydd y Cyngor (lle bo'n briodol) yn rhoi'r flaenoriaeth i sicrhau rhwymedigaethau'n gysylltiedig ag ACA Caeau'r Mynydd Mawr ar gyfer cynigion sydd wedi'u lleoli oddi mewn i Ardal CCA CMM, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn gyson â'r Rheoliadau Cynefinoedd.

Er mwyn eglurder, cynigir mewnosod 'a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)' ar ôl 'rheoliadau cynefin' yn rhan gyntaf y polisi.

Yn rhan o'r gwaith o lunio'r CCA a pholisi NE4, lluniwyd papurau tystiolaeth ar gyfer y canlynol: Cyfrifo Taliadau Lliniaru (CSD046), Manyleb Rheoli Cynefinoedd a Monitro Llwyddiant (CSD047) a Diffinio'r Ardal CCA Ddiwygiedig (CSD048).

**4. A ddylid diwygio ffin ardal CCA Caeau'r Mynydd Mawr ym Mholisi NE4 er mwyn cynnwys rhan o'r tir oddi ar Heol Brown, Tŷ-croes, (cyf AS2/159/002)?**

Na, mae ffin CCA Caeau'r Mynydd Mawr wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn fel y nodir yn Nogfen Gyflwyno CSD48 Papur Tystiolaeth ar ddiffinio ardal y CCA. Nodir yn y ddogfen fethodoleg glir ar gyfer diffinio'r ffin, a ddefnyddiwyd yn gysylltiedig â pholisi NE4 y CDLI Diwygiedig.

**5. A yw'r fframwaith a ddarperir gan Bolisiâu NE5, NE6 a NE7 yn rhoi dulliau priodol ar gyfer rheoli datblygiad mewn lleoliadau arfordirol?**

Mae'r polisiâu rheoli a datblygu arfordirol yn ceisio sicrhau bod unrhyw ddatblygiad a gyflawnir mewn ardaloedd arfordirol yn angenrheidiol, a bod y datblygu'n cael ei gyflawni mewn modd priodol ac yn unol a PCC. Ystyrir bod angen tri pholisi i sicrhau bod gwahanol elfennau'n cael eu rheoli'n briodol wrth ddatblygu ar yr arfordir.

Mae Polisi NE5 yn ymwneud yn benodol â chynlluniau rheoli'r arfordir ac yn ceisio sicrhau bod cynigion am gynlluniau rheoli'r arfordir wedi'u dylunio a'u gweithredu'n briodol. Mae Polisi NE6 yn ymwneud â phob datblygiad o fewn ardal yr arfordir, ac yn ceisio sicrhau eu bod yn briodol ac wedi ystyried materion yn gysylltiedig â newid arfordirol. Mae'r ddau bolisi hyn yn debyg iawn i'r polisiâu yn y CDLI mabwysiedig sydd wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ceisio sicrhau bod cynlluniau datblygu yn darparu polisïau penodol i reoli datblygiad mewn ardaloedd lle na fydd amddiffynfeydd arfordirol yn cael eu cynnal mwyach, fel y nodir mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin (CRhTau). Mae Polisi NE7 yn bolisi newydd ac mae'n ceisio mynd i'r afael ag ardaloedd y mae polisïau'r CRhT yn effeithio arnynt. Mae nifer o ardaloedd wedi'u dynodi'n ardaloedd "adlinio a reolir" ac yn ardaloedd "heb ymyrraeth weithredol" o fewn y CRhT, ac mae'r polisi hwn yn ceisio darparu fframwaith i sicrhau rheolaeth briodol ar ddatblygiad yn yr ardaloedd hyn.

Ystyrir y bydd y tri pholisi yn darparu dull priodol o sicrhau rheolaeth briodol ar y gwahanol fathau o ddatblygiad sy'n debygol o ddigwydd mewn lleoliadau arfordirol.

### ***Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol***

#### **6. A yw Polisi SP15 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer amddiffyn a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol?**

Ydy, mae Polisi SP15 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer amddiffyn a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol. Mae'r polisi'n mynnu'n benodol fod cynigion datblygu yn cadw neu'n gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol, gan gynnwys asedau diwylliannol, treflun a thirwedd, a'u lleoliadau. Mae'n hyrwyddo dyluniadau o ansawdd uchel sy'n atgyfnerthu cymeriad lleol ac yn parchu rhinweddau diwylliannol a hanesyddol yr ardal.

Mae'r polisi wedi'i integreiddio'n dda â deddfwriaeth bresennol a darpariaethau cynllunio eraill, fel PCC a Pholisi Strategol SP14, sydd o gymorth i sicrhau cysondeb a chydlyniant wrth ei gymhwyso. Yn ogystal â hynny, mae'n cydnabod effaith bosibl newid lleoliad ar asedau hanesyddol, ac yn ymrwmo i lunio Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi ei weithrediad ymhellach. Mae'r dull cynhwysfawr hwn yn tanlinellu eglurder y polisi a'i ymrwymiad i gynnal hygredd hanesyddol ac adeiledig Sir Gaerfyrddin.

#### **7. A yw Polisi BHE1 yn unigryw yn lleol neu a yw'n adlewyrchu gofynion polisi cynllunio cenedlaethol?**

Mae Polisi BHE1 yn cyd-fynd â gofynion polisi cenedlaethol ac yn ymgorffori nodweddion unigryw Sir Gaerfyrddin ar yr un pryd. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12) yn pwysleisio pwysigrwydd cadw neu wella Ardaloedd Cadwraeth ac Adeiladau Rhestredig, ac mae Polisi BHE1 yn ymhelaethu ar hyn drwy integreiddio nodweddion unigryw lleol Sir Gaerfyrddin. Er bod egwyddorion craidd Polisi BHE1 yn cyd-fynd yn agos â pholisi cenedlaethol, mae ei nodweddion unigryw lleol wedi'u hadlewyrchu yn y modd y caiff y polisi ei ddehongli a'i gymhwyso yng nghyd-destun asedau treftadaeth neu ardaloedd cadwraeth lleol. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol yn cael eu llunio i ddarparu manylion

pellach a chefnogi'r Cynllun a'i bolisiâu. Am ragor o wybodaeth, gweler y ddogfen Datganiad Sefyllfa CSD66 - Canllawiau Cynllunio Atodol.

## **8. A yw Polisi BHE2 yn darparu dulliau priodol ar gyfer rheoli effaith datblygiadau ar dirwedd a nodweddion gweledol y Sir?**

Mae'r CDLI Diwygiedig yn cydnabod ansawdd tirwedd ehangach y Sir drwy BHE2 a thrwy baratoi asesiad cymeriad tirwedd fel sail nid yn unig ar gyfer rhinweddau perthynol ein tirweddau ond hefyd i roi arweiniad clir wrth wneud penderfyniadau ynghylch datblygiadau a'u rheoli. Mae'r dull hwn yn cydymffurfio â Rhifyn 12 PCC, o ran ei fod yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwarchod a, lle bo'n briodol, gwella tirweddau lleol, ac yn darparu polisiâu ar gyfer nodweddion, priodoleddau a rhinweddau'r dirwedd sydd o bwysigrwydd lleol. Bydd hefyd yn nodi pa nodweddion, priodoleddau neu rinweddau sydd angen gwarchodaeth ychwanegol, drwy ddefnyddio LANDMAP, ac unrhyw asesiadau cysylltiedig o gymeriad y dirwedd (gan gynnwys cofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru).

Bydd yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd hyn yn cael eu diffinio drwy Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n cael eu llunio ar hyn o bryd, a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y canllawiau hynny cyn eu mabwysiadu ar yr un pryd â'r CDLI Diwygiedig. Cyfeirir yn benodol at y datganiad sefyllfa ynghylch CCA (Dogfen Gyflwyno CSD66).

Dylid nodi y bydd angen diwygio Atodiad 3 y CDLI Diwygiedig mewn perthynas â'r CCA i adlewyrchu eu dyddiad mabwysiadu diwygiedig.

Er yr ystyrir bod BHE2 fel y nodir yn yr 2il CDLI Adneuo yn foddhaol fel dull o reoli effaith datblygiad ar y dirwedd, paratoi'r Asesiad Cymeriad Tirwedd (ACT) ynghyd â'i fethodoleg a'i allbwn wedi golygu bod angen adolygu'r polisi. O ran hyn, cynigir diwygio'r polisi a'i destun ategol. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn rhoi adlewyrchiad gwell o'r asesiad sydd ar ddod, a bod y rheolaeth ar y dirwedd a'r penderfyniadau yn ei chylch yn adlewyrchu cynnwys yr ACT. Mae'r polisi diwygiedig BHE2 wedi'i nodi yn Atodiad A y datganiad sesiwn gwrandawriad hwn.

## **9. A ddylai'r Cynllun gynnwys polisi sy'n dynodi ardaloedd tirwedd arbennig?**

Na ddylai. Nodir y potensial i ddynodi ardaloedd tirwedd arbennig (ATA), ond dynodiad lleol anstatudol yw'r rhain. O ran hyn, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod eu dynodi, ac mae hynny hefyd yn adlewyrchu nad oes cysondeb o ran dynodi'r ardaloedd ledled Cymru.

Fodd bynnag, mae'r CDLI Diwygiedig yn cynnwys cydnabyddiaeth glir o ansawdd tirwedd y Sir, gan gydnabod bod yr ansawdd hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r ardaloedd a ddiffinnir fel ATA yn y CDLI mabwysiedig presennol. O ganlyniad i hyn, ac er mwyn

cydnabod ansawdd y dirwedd ehangach ar draws y Sir, bydd Asesiad Cymeriad Tirwedd yn cael ei lunio i gyd-fynd â'r cynllun a'i bolisiâu ar gyfer y dirwedd (wedi'i fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol).

Mae'r dull hwn yn cydymffurfio â Rhifyn 12 PCC, o ran ei fod yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwarchod a, lle bo'n briodol, gwella tirweddau lleol, ac yn darparu polisiâu ar gyfer nodweddion, priodoleddau a rhinweddau'r dirwedd sydd o bwysigrwydd lleol. Bydd hefyd yn nodi pa nodweddion, priodoleddau neu rinweddau sydd angen gwarchodaeth ychwanegol, drwy ddefnyddio LANDMAP, ac unrhyw asesiadau cysylltiedig o gymeriad y dirwedd (gan gynnwys cofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru).

Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu diffinio drwy'r CCA sy'n cael eu llunio ar hyn o bryd - bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal arnynt cyn eu mabwysiadu ar yr un pryd â'r CDLI Diwygiedig. Cyfeirir at y Datganiad Sefyllfa ar y CCA (Dogfen Gyflwyno CSD66).

Dylid nodi y bydd angen diwygio Atodiad 3 y CDLI Diwygiedig mewn perthynas â'r CCA i adlewyrchu eu dyddiad mabwysiadu diwygiedig.

### ***Darparu Mannau yn yr Awyr Agored***

#### **10. A yw gofynion Polisiâu PSD7 a PSD8 yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy? A yw'r polisiâu'n cael eu mynegi'n glir ac a ydynt yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol?**

Mae gofynion Polisiâu PSD7 a PSD8 wedi'u seilio ar asesiadau manwl penodol i Sir Gaerfyrddin, fel Asesiad Mannau Agored Sir Gaerfyrddin (CSD23) ac Asesiad Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin (CSD28). Mae'r dogfennau hyn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r ddarpariaeth, hygyrchedd ac ansawdd manau agored ledled y sir ar hyn o bryd. Mae'r polisiâu wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghenion a diffygion a nodwyd, gan sicrhau bod gan y gymuned leol fynediad at fannau agored digonol o ansawdd uchel. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn hanfodol er mwyn teilwra polisiâu i gyd-destun ac anghenion penodol Sir Gaerfyrddin.

Yn ogystal â hynny, mae'r polisi'n caniatáu hyblygrwydd drwy ystyried patrymau demograffig newidiol, cyflwr y cyfleusterau presennol, ac anghenion lleol. Mae'r gofyniad i ymgeiswyr ddangos cydymffurfiaeth drwy ddarpariaeth amgen neu gyfraniadau ariannol yn cryfhau ymhellach fframwaith y polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan ddata a dadansoddiadau lleol.

Mae'r polisiâu wedi'u cyfleu'n glir, gan amlinellu meini prawf penodol lle gellid caniatáu colli manau agored, a sut y dylai datblygiadau newydd gyfrannu at

ddarparu mannau agored, gan fanylu ar amodau fel gwerth cyfatebol, hygyrchedd a'r rheidrwydd i wneud cyfraniadau ariannol.

O ran cysondeb â pholisi cynllunio cenedlaethol, mae PSD7 a PSD8 yn cyd-fynd yn dda â nodau ehangach fframweithiau cenedlaethol, ac maent yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 16: chwaraeon, hamdden a mannau agored (TAN16) a'r Canllawiau ar gyfer Chwaraeon Awyr Agored a Chwarae - Y Tu Hwnt i'r Safon Chwe Erw (Safonau FIT). Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd gwarchod mannau agored, sicrhau mynediad at fannau gwyrdd o ansawdd uchel, ac annog datblygiadau sy'n hyrwyddo iechyd, llesiant a chynaliadwyedd. Mae polisiâu'r CDLI Diwygiedig yn adleisio'r amcanion cenedlaethol hyn drwy roi'r flaenoriaeth i warchod, gwella a chreu mannau agored a thrwy gydnabod rôl amlweddol y mannau hynny ym mywyd y gymuned, o ran bioamrywiaeth ac o ran gwrthsefyll yr hinsawdd. Mae CCA ar Ddarparu Mannau Agored mewn Datblygiadau Newydd yn cael ei lunio ar hyn o bryd. Gweler y Datganiad Sefyllfa ar Ganllawiau Cynllunio Atodol (CSD66).

#### **11. A ddylai tir yng Nglanaman (Cyf AS2/064/005 ac AS2/064/006) gael ei nodi fel man cyhoeddus a/neu gymunedol?**

Er nad yw'r Cynllun yn nodi ardaloedd yn benodol fel mannau cyhoeddus neu gymunedol, mae'r ddarpariaeth o fannau agored a nodwyd yn y Sir (fel y nodwyd o dan Bolisi PSD7) wedi'i mapio a'i hasesu yn Asesiad Mannau Agored Sir Gaerfyrddin. Nid yw'r safle dan sylw wedi'i nodi o fewn yr asesiad hwn. Lluniwyd yr Asesiad Mannau Agored yn unol â'r arweiniad yn y Canllawiau ar gyfer Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored: Y Tu Hwnt i'r Safon Chwe Erw (Safonau FIT), sy'n ystyried na ddylid ond cynnwys cyfleusterau neu dir sydd ar gael yn rheolaidd i'r cyhoedd wrth asesu mannau agored sydd ar gael, wrth ystyried maint y ddarpariaeth leol.

Cydnabyddir y gallai ardaloedd ychwanegol o fannau agored, nad ydynt wedi'u hadlewyrchu yn yr Asesiad, a allai gyfrannu at ddarparu mannau agored o fewn cymuned, ond hyd y bo'r Cyngor yn ymwybodol, mae'r safle(oedd) dan sylw mewn perchnogaeth breifat. Ar ben hynny, byddai angen caniatâd y tîrfeddiannwr i'r cyhoedd gael mynediad i ardaloedd o'r fath a'u defnyddio. Nid yw'r tîrfeddiannwr/tîrfeddiannwr wedi cysylltu â'r Cyngor ynghylch unrhyw fwriad i nodi'r safle(oedd) fel man agored.

## **Atodiad A**

Cyfeirir at gwestiwn 8 y datganiad sesiwn gwrandawriad hwn ac at ymateb y Cyngor iddo. Mae'r canlynol yn nodi'r diwygiadau a gynigir i Bolisi BHE2 yn sgil yr ymateb i'r cwestiwn uchod.

### **BHE2: Cymeriad y Dirwedd**

**Rhaid i gynigion datblygu sydd o fewn ardaloedd y dynodwyd eu gwerth oherwydd cymeriad y dirwedd weledol ac ansawdd yr olygfa ac/neu gymeriad y dirwedd hanesyddol neu ddiwylliannol, neu a allai gael effaith ar yr ardaloedd hynny:**

- a) beidio ag achosi effeithiau andwyol sylweddol, gan gynnwys effeithiau cronrus, ar nodweddion na lleoliadau sy'n bwysig i gymeriad tirwedd hanesyddol a diwylliannol yr ardal leol**
- b) beidio ag achosi effeithiau andwyol sylweddol, gan gynnwys effeithiau cronrus, ar gymeriad y dirwedd weledol ac ansawdd yr olygfa yr ardal leol, gan gynnwys golygfeydd allweddol o'r dirwedd.**
- c) cyfrannu'n gadarnhaol at y dirwedd a chymeriad gweledol drwy ddylunio ffurf adeiledig sy'n gydnaws ag enghreifftiau cadarnhaol o gymeriad unigryw lleol, ac yn ymateb i'r enghreifftiau hynny, drwy ffurf, graddfa, dimensiynau, deunyddiau, manylion, lliw a gorffeniadau.**
- ch) cyfrannu'n gadarnhaol at y dirwedd a chymeriad gweledol drwy gynllun a dyluniad tirweddol o ansawdd uchel, sy'n gydnaws â chymeriad unigryw lleol, ac yn ymateb i'r cymeriad hwnnw, drwy'r mathau a'r rhywogaethau o blanhigion, a'r deunyddiau a'r manylion tirweddu caled.**
- d) gwarchod a gwella neu adfer nodweddion presennol yng nghymeriad y dirwedd, a phatrymau wedi'u ffurfio gan fathu o dirwedd, gorchudd coed, ffiniau caeau, gwrychoedd, cloddiau a waliau cerrig, ac integreiddio'r nodweddion hyn i'r cynllun ac i gynlluniau dylunio tirwedd.**

11.454 Nodweddir Sir Gaerfyrddin gan adnoddau tirwedd amrywiol sydd o ansawdd uchel ac ardaloedd y dynodwyd eu gwerth oherwydd cymeriad y dirwedd weledol ac ansawdd yr olygfa ac/neu gymeriad y dirwedd hanesyddol neu ddiwylliannol. Bydd gwerthusiadau ardal agwedd LANDMAP a dynodiadau tirwedd a hanesyddol yn cael eu defnyddio fel llinell sylfaen ar gyfer y cyd-destun i gymhwysu polisi BHE2 Cymeriad y Dirwedd.

Sylwer: Adnodd tirweddau sy'n seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol yw LANDMAP lle caiff nodweddion, rhinweddau a dylanwadau ar y dirwedd eu cofnodi a'u gwerthuso mewn set ddata sy'n gyson ar raddfa genedlaethol.

11.455 Cefnogir y polisi gan Asesiad Cymeriad Tirwedd drwy Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Bydd y CCA hyn yn diffinio Ardaloedd Cymeriad Tirwedd penodol sy'n adeiladu ar werthusiadau ardal agwedd LANDMAP a dynodiadau tirweddol a hanesyddol i ddarparu dull llinell sylfaen o adnabod y patrymau a'r cyfuniadau unigol o nodweddion sy'n creu 'naws am le' adnabyddadwy, sy'n gwneud pob Ardal Cymeriad Tirwedd yn unigryw. Bydd y CCA yn cynnwys gwerthusiad cyffredinol o werth o ran cymeriad y dirwedd weledol ac ansawdd yr olygfa, a chymeriad y dirwedd hanesyddol neu ddiwylliannol i fireinio'r cyd-destun er mwyn cymhwyso polisi BHE2 Cymeriad Tirweddol a Gweledol. Bydd y CCA yn nodi Cyngor Cynllunio a Datblygu ar gyfer Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ar sail Mathau o Dirwedd.

11.456 Mae ardal yr Awdurdod yn cynnwys rhannau o un ardal a ddynodwyd yn genedlaethol (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ac mae'n gymharol agos at ardaloedd eraill a ddynodwyd yn genedlaethol, sy'n golygu y gallai datblygiad greu effeithiau gweledol ac effeithiau ar y dirwedd. (Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Gŵyr). Mae'r dynodiadau hyn yn cynrychioli ardaloedd y dynodwyd eu gwerth oherwydd cymeriad y dirwedd weledol ac ansawdd yr olygfa ac/neu gymeriad y dirwedd hanesyddol neu ddiwylliannol, ac fe'u trafodir o fewn y CCA.

11.457 Mae ardal yr Awdurdod yn cynnwys ardaloedd a nodir ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol (Tirwedd Hanesyddol Cymru [D] Dyffryn Tywi 5; Tirwedd Hanesyddol Cymru [D] Preseli 7; Tirwedd Hanesyddol Cymru [D] Dolaucothi 8; a Thirwedd Hanesyddol Cymru [D] Aber Afonydd Taf a Thywi 9) a'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig (Tirwedd Hanesyddol Cymru [D] Dre-fach a Felindre 10; Tirwedd Hanesyddol Cymru [D] Pen Isaf Dyffryn Teifi 14). Mae'r ardaloedd penodol hyn wedi'u dynodi'n werthfawr oherwydd cymeriad eu tirwedd hanesyddol neu ddiwylliannol, ac fe'u trafodir yn y CCA.

11.458 Mae ardal yr Awdurdod yn cynnwys ardaloedd a nodir ar y Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.